Treganna: CO20028: Heol Lansdowne - Gwelliannau i'r Priffyrdd.

Adroddiad am yr Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 07/11/2020 a 12/12/2020. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd

Nod y prosiect yw creu amgylchedd priffyrdd mwy diogel trwy leihau cyflymder cerbydau a gwella cyfleusterau i gerddwyr. Bydd y gwelliannau hyn o fudd i symudiadau cerddwyr ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer teithio llesol.

Gwaith arfaethedig:

- Lleihau cyflymder cerbydau trwy osod byrddau arafu.
- Uwchraddio'r groesfan bresennol i gerddwyr i groesfan pâl â bwrdd arafu.

Bydd y mesurau'n creu amgylchedd mwy diogel i gerddwyr, yn benodol i ddefnyddwyr agored i niwed a disgyblion ysgol, a byddant yn gwella mynediad i'r ardal gymunedol, y siopau lleol a'r gwasanaethau bysus lleol.

Cafwyd arian ar gyfer y cynllun gan Lywodraeth Cymru.

O'r 250 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy, derbyniwyd 26 ymateb unigol.

14 - O blaid y cynllun; rhoddodd rhai sylwadau/awgrymiadau ychwanegol
6 - Yn anghytuno â'r cynigion
6 - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Crynhoir y pryderon a'r sylwadau isod mewn ysgrifen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod bwriedir bwrw ymlaen i roi'r cynllun ar waith yn unol â'r amlinelliad yn y cynllun ymgynghori.

Materion sy'n ymwneud â chynyddu darpariaeth feicio.

"Byddai'n braf creu lôn i feicwyr naill ai ar y ffordd ei hun neu drwy ehangu'r palmant. Byddai hyn yn gwneud cerddwyr yn fwy tebygol o gael y palmant iddynt eu hunain wrth i feicwyr deimlo'n fwy hyderus yn defnyddio'r ffordd"

Mae nifer o breswylwyr wedi codi pryderon bod angen llwybrau beicio a chynlluniau dynodedig ychwanegol yn yr ardal.

Mae ein Map Rhwydwaith Integredig (MRhI) yn gynllun 15 mlynedd i flaenoriaethu gwelliannau ar gyfer cerdded a beicio a gellir ei weld ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/teithiollesol.

Tynnwyd sylw at yr angen am lwybr beicio ar Heol Lansdowne ar yr MRhI, ond byddai'n anodd datblygu llwybr ar wahân ar Heol Landsowne oherwydd culni'r lôn gerbydau bresennol.

Mae llwybrau beicio bellach yn cael eu datblygu gan ddefnyddio Canllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y Llwybrau Beicio ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/beicffyrdd.

Mae terfyn cyflymder 20 mya dros dro wedi'i osod yn ddiweddar ar Heol Lansdowne, a bydd y mesurau arafu traffig arfaethedig hefyd yn helpu i leihau cyflymder cerbydau, a fydd yn creu amgylchedd priffyrdd mwy diogel i feicwyr.

Materion ynglŷn â llygredd.

"Rwy'n pryderu bod ansawdd aer a lefelau traffig wedi cynyddu eto, yn dilyn y gostyngiad a welwyd ar ddechrau'r cyfyngiadau symud. Wrth feddwl am nod amgylcheddol hirdymor y ddinas, byddai lleihau traffig yn y rhan hon o'r ddinas o fudd mawr i'w thrigolion."

"Rwyf am gyfleu fy mhryderon, nid yn unig y llygredd"

Cododd trigolion eu pryderon ynghylch cynnydd posibl mewn llygredd wrth osod croesfannau dyrchafedig.

Cydnabyddir mai allyriadau traffig ffordd (gronynnau a nitrogen deuocsid cynradd/eilradd (NO_2) yw'r prif ffactor sy'n cyfrannu at ansawdd aer gwael yng Nghaerdydd. Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol iawn o'r pryderon am yr effeithiau ar ansawdd yr aer ac wedi ymrwymo i gyrraedd lefelau mor isel ag sy'n ymarferol bosibl. Mae angen i'r Cyngor gydbwyso'r manteision a ddaw yn sgîl mesurau diogelwch ffyrdd – o ran achub bywydau a lleihau anafiadau – ag unrhyw gynnydd bach mewn allyriadau a allai gael eu hachosi. Mae Monitro Ansawdd Aer yng nghyffiniau'r ardal yn dangos bod y lefelau presennol islaw'r safon ansawdd aer ar gyfer NO_2 ac felly ni fyddai'r Cyngor yn disgwyl i'r mesurau hyn gynyddu allyriadau i lefel lle byddent yn methu bodloni'r safon ansawdd aer o ran NO_2. Yn ogystal, er mwyn gwella ansawdd aer, ynghyd â chyfrannu at welliannau iechyd yng Nghaerdydd, mae'n hanfodol defnyddio mwy o ddewisiadau teithio cynaliadwy a llesol amgen a bydd gweithredu mesurau o'r fath yn annog pobl i wneud y newid hwn.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pryderon am iechyd plant sy'n gysylltiedig â phroblemau llygredd aer a ddaw o draffig ger ysgolion. Er ein bod yn cydnabod bod llifoedd traffig uwch yn ystod amserau cymudo prysuraf y bore a'r prynhawn yn achosi lefelau uwch o

grynodiadau, mae'r Cyngor wedi monitro sawl lleoliad ledled Caerdydd sy'n dangos nad yw'r lefelau hyn yn y lleoliadau hyn yn uwch na'r safonau ansawdd aer ar gyfer NO_2.

Materion sy'n ymwneud â lefelau sŵn a dirgrynu.

"Pryder arall, er yn fach ac o bosibl ychydig yn hunanol, yw pryder ynghylch lefelau sŵn uwch o ganlyniad i geir yn arafu, yn brecio neu'n newid gêr cyn croesi'r man arafu traffig dyrchafedig yn union gyferbyn â therfyn fy eiddo"

Mae trigolion wedi codi eu pryderon ynghylch cynnydd posibl mewn llygredd sŵn a dirgrynu wrth osod mesurau arafu traffig.

Nid ydym yn cynnal arolygon sŵn cyn neu ar ôl gosod nodweddion arafu traffig fel y rhain. Rydym yn dibynnu ar Ganllawiau'r Adran Drafnidiaeth megis Taflen Cynghori Traffig 6/96 a Nodyn Trafnidiaeth Leol 1/07. Mae'r cyngor o'r dogfennau hyn fel a ganlyn:

"Conventional methods of measuring traffic noise do not readily expose annoyance factors associated with changes in the variability of noise. Consequently, it is difficult to predict accurately the perceived noise impact of traffic calming schemes (Abbot et al., 1995b)."

Felly nid ydym yn darllen lefelau sŵn wrth osod cynlluniau arafu traffig. Rampiau cyflymder yw'r unig ddull sydd ar gael i ni ar hyn o bryd sy'n eihau cyflymderau'n effeithiol er mwyn gwella diogelwch ffyrdd i ddefnyddwyr agored i niwed.

Mae trafnidiaeth ar dwmpathau ffordd a dirgryniadau trwy'r ddaear yn seiliedig ar Safon Brydeinig 7385: Rhan 2 sy'n rhoi gwerthoedd trothwy o ran dirgryniadau a allai arwain at fân ddifrod cosmetig i adeiladau. Defnyddiwyd y gwerthoedd hyn i gyfrifo'r pellter lleiaf y gellir lleoli twmpathau ffordd o anheddau, yn ôl math y pridd.

Mae'r tabl hwn yn dangos na ddylai hyn achosi hyd yn oed fân graciau trwch blewyn oni bai bod y rhwystrau wedi cael eu gosod llai na 4m o annedd, hyd yn oed ar y pridd meddalaf, er ei bod yn bosib y gellid teimlo effeithiau cerbyd masnachol yn croesi'r rhwystr ar bridd meddal hyd at 76m o'r safle. Fodd bynnag, gan fod yr eiddo yn Heol Lansdowne yn sefyll y tu hwnt i'r pellter lleiaf a nodir yn y canllawiau, ystyrir na fyddai unrhyw ddifrod adeileddol yn cael ei achosi o ganlyniad i ddirgrynu.

Materion sy'n ymwneud â materion draenio.

"Bydd rampiau'n achosi problemau o ran draenio dŵr yn yr hyn sydd eisoes yn ardal lle ceir llifogydd. Beth bydd yn cael ei wneud i sicrhau nad yw'r rampiau hyn yn effeithio ar ddraenio?"

Byddwn yn cynnal arolwg draenio ac yn sicrhau bod mesurau draenio addas yn cael eu darparu fel rhan o'r broses ddylunio fanwl.

Materion sy'n ymwneud â ffyrdd eraill ger Heol Lansdowne e.e. Grosvenor Street.

"Grosvenor Street yw'r unig stryd yn yr ardal sy'n dal yn ffordd drwodd, ac o'r herwydd mae'n agored yn ddi-ffael i dagfeydd ar oriau brig ar ddechrau a diwedd y diwrnod gwaith. Prin mae'r stryd yn ddigon llydan ar gyfer dwy lôn gerbydau a lleoedd parcio i breswylwyr ac yn amlach na pheidio, pan fydd hi'n brysur, bydd gyrwyr diamynedd yn ceisio gwasgu eu cerbydau trwy fannau sydd bron yn amhosibl symud trwyddynt. Yn aml mae hyn yn arwain at dagfeydd stond, gyda phobl yn gorfod dod allan o'u ceir i geisio tywys eraill yn ofalus drwodd ac ar adegau mae difrod anochel i gerbydau preswylwyr sydd wedi'u parcio. Gallaf gadarnhau hyn ar ôl cael llu o grafiadau ar fy nghar fy hun ac i'm drychau ochr gael eu torri oherwydd gyrru mor anystyriol dros y pymtheg mlynedd diwethaf y bûm yn byw yma."

Cododd nifer o breswylwyr bryderon ynglŷn â'r amodau traffig ar Grosvenor Street, megis

- Cyflymderau cerbydau
- Adroddiadau am gerbydau'n defnyddio'r ffordd fel ffordd osgoi.
- Tagfeydd traffig, yn enwedig ar amseroedd ysgol.

Mae'r cynllun cynnig hwn yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru o dan eu Grant Llwybrau Diogel yn y Gymuned (SRiC). Nid yw'n bosibl i ni ddefnyddio'r arian at ddibenion eraill, ond byddwn yn adolygu'r amodau traffig ar Grosvenor Street ac yn asesu a oes cyfiawnhad dros gyflwyno mesurau ychwanegol ar Grosvenor Street, er y gallai hyn wedyn fod yn rhan o gynllun ar wahân yn y dyfodol?

Problem - Materion Gorfodi Parcio Sifil

*"Mae cwsmeriaid y garej fasnachol drws nesaf yn defnyddio'r lle hwn. Mae'r garej ei hun yn "gadael" ceir y tu allan. Mae car y tu allan **, ac mae bellach wedi bod yno ers 6 wythnos. Oherwydd safle'r bympar, mae'n tresmasu ar le parcio preswylwyr. Mae'n fy nghynddeiriogi!"*

"Allwch chi roi trefn ar y parcio gwallgof ym mhen pellaf Norfolk Street?"

"Rydyn ni'n byw gyferbyn â garej sy'n aml yn cymryd y lleoedd cyfagos sydd ar gael (gan gynnwys ein rhai ni) a chyda llinellau melyn dwbl wrth i chi nesáu at groesffordd Grosvenor St, mae mannau parcio eisoes ar bremiwm yma. Mae'n mynd i greu tensiwn ymhlith cymdogion wrth i'r frwydr am fannau prin arwain at bobl yn parcio y tu allan i dai ei gilydd."

Mae Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor yn gorfodi'r cyfyngiadau parcio presennol yn rheolaidd, ond dylid cyfeirio unrhyw gais am orfodi'r cyfyngiadau parcio presennol at y Swyddogion Gorfodi Sifil y gellir cysylltu â hwy drwy C2C ar 029 2087 2087.

Materion sy'n ymwneud â'r bolardiau arfaethedig y tu allan i 205 - 211

"Ar hyn o bryd rwy'n parcio y tu allan i'm tŷ (pan fydd lle ar gael). Mae hyn yn golygu fy mod yn parcio'n rhannol ar y ffordd ac yn rhannol ar y palmant. Mae fy nghar mewn llinell â'r ceir sydd

wedi'u parcio ymhellach i lawr y stryd yn yr ardaloedd trwydded gan adael yr un faint o le ar y ffordd a'r un lled ar y palmant."

Mae nifer o drigolion wedi codi pryderon am y bolardiau arfaethedig a fydd yn eu hatal rhag parcio ar y droedffordd y tu allan i rifau 205 i 207.

Diben gosod bolardiau yn y lleoliad hwn yw gwella diogelwch i gerddwyr wrth y groesfan reoledig, er mwyn sicrhau bod cerddwyr yn gallu gweld cerbydau sy'n nesáu a chael eu gweld ganddynt.

O ran parcio ar y droedffordd, mae Rheol 244 yn Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi bod "RHAID I CHI BEIDIO" â pharcio yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar y palmant yn Llundain, ac na ddylech wneud hynny yn unrhyw le arall oni bai bod arwyddion yn caniatáu hynny. Gall parcio ar y palmant beri rhwystr ac anghyfleustra difrifol i gerddwyr, pobl mewn cadeiriau olwyn neu â nam ar eu golwg, a phobl sy'n gwthio pramiau neu gadeiriau gwthio." Gallwn gadarnhau nad oes unrhyw arwydd yn caniatáu parcio ar y droedffordd yn y lleoliad hwn, a byddem yn atgoffa preswylwyr eu bod yn cyflawni trosedd trwy yrru ar y droedffordd.

Mae parcio ar droedffordd bob amser wedi bod o bryder ar hyd Heol Lansdowne gan wrthdaro ers amser maith â symudiadau cerddwyr mewn ardal lle ceir nifer mawr o ymwelwyr.
Mae parcio ar unrhyw droedffordd yn broblem arbennig i'r rhai sydd â gofynion symudedd ychwanegol neu bobl â nam ar eu golwg a gall orfodi'r rhai sydd â nam ar eu golwg neu gymhorthion symudedd i fynd ar y lôn gerbydau i symud o amgylch cerbydau sydd wedi'u parcio'n rhwystrol.

<u>Materion sy'n ymwneud â pharcio</u>

"Byddai rhoi twmpathau cyflymder yn amharu ar fannau parcio yn ogystal ag achosi niwed i grogiant cerbydau, byddai hyn yn gwaethygu'r cyfyngiadau parcio anodd presennol trwy leihau'r lle sydd ar gael."

Mae nifer o drigolion wedi codi pryderon y byddai gweithredu'r cynllun yn arwain at golli mannau parcio.

Nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) presennol, felly ni fydd unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth barcio bresennol. Yn y lleoliadau â baeau parcio preswylwyr presennol lle mae bwrdd arafu'n cael ei osod (megis ger Rhif 251 Heol Lansdowne), bydd yn dal yn bosibl parcio o fewn y baeau preswylwyr pan fydd y bwrdd arafu wedi'i adeiladu.

<u>Materion sy'n ymwneud â pharth 20 mya</u>

"Gan eich bod eisoes wedi cyflwyno'r cyfyngiad 20 mya yn Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, nid yw modurwyr bellach yn defnyddio'r ffordd hon. Hefyd ers ailadeiladu cynllun croesffordd Heol y Bont-faen/Heol Lansdowne, sydd wedi achosi i lawer o gerbydau barhau'n syth

ymlaen i Heol Lansdowne, oni fyddai'n gais rhesymol i estyn y cyfyngiad 20 mya i Heol Lansdowne yn hytrach na gosod twmpathau cyflymder?"

"Mae'r cyfyngiadau 20 mya a gyflwynwyd yn Nhreganna yn gam cadarnhaol iawn, ac mae llawer o bobl yn cadw at y cyfyngiad newydd hwn, ond mae gormod nad ydynt yn rhoi unrhyw sylw iddynt, ac ni fydd unrhyw nifer o arwyddion cyfyngiad cyflymder nac arwyddion camera cyflymder yn newid eu hymddygiad."

Fel rhan o'r Cynllun, bydd cyfyngiad cyflymder newydd 20mya yn cael ei gyflwyno ar hyd Heol Lansdowne. Bydd y newid hwn i'r cyfyngiad cyflymder yn gofyn am GRhT a fydd yn destun ymgynghoriad ar wahân fel rhan o broses gyfreithiol GRhT.

Materion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Brys

"Byddai byrddau arafu'n peri iddynt arafu a chyflymu yn yr ardaloedd rhwng y byrddau, gan arwain o bosibl at sŵn a llygredd cynyddol ac amharu ar amserau ymateb y gwasanaethu brys."

"Byddai gennyf ddiddordeb hefyd mewn gwybod pa ymgynghoriad sydd wedi'i gynnal â'r gwasanaethau brys, achos mae peiriannau tân, yr heddlu ac ambiwlansys yn defnyddio'r ffordd yn aml i fynd i mewn ac allan o'r ddinas."

Ymgynghorwyd â'r holl Wasanaethau Brys ynghylch y cynllun hwn. Rydym wedi derbyn cefnogaeth ar gyfer y cynigion gan yr Heddlu ac nid ydym wedi derbyn unrhyw adborth negyddol gan y gwasanaethau brys eraill.

Materion sy'n ymwneud â cheisiadau cynnal a chadw.

"O ran y lôn gefn sy'n arwain i Nottingham Street, mae pant yn y ffordd erbyn hyn oherwydd y traffig trwm ac mae gwir angen ei hatgyweirio. Oni bai bod gennych 4x4, bydd bympar car yn crafu ar hyd y llawr bob tro wrth adael y dreif."

"Oes modd datrys y broblem gyda'r caead mynediad rhydd y tu allan i 210, sy'n gwneud sŵn yn gyson pan fydd traffig yn gyrru drosto?"

Bydd yr holl faterion yn cael eu hadolygu gan ein Tîm Rheoli Asedau a byddant yn ymgymryd ag unrhyw waith cynnal a chadw sydd ei angen.

Materion sy'n ymwneud â'r cais am Gamerâu Cyflymder.

"Rhai camerâu cyflymder pwrpasol, camera na fyddai angen iddo lenwi mannau parcio."

"Felly hoffwn i chi edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno camerâu cyflymder cyfartalog yn lle hynny."

Mae nifer o geisiadau wedi'u gwneud am gamerâu cyflymder.

Partneriaeth Lleihau Anafiadau Cymru (a elwir yn GanBwyll www.ganbwyll.org) sy'n gweithredu camerâu cyflymder, ac fe'u darperir fel y nodir yn y ddogfen Meini Prawf Safle* a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Llywodraeth Cymru.
*https://gosafe.org/calibration-certifcates/where-we-place-cameras/?lang=cy

Dim ond mewn un o dair sefyllfa y gellir defnyddio camerâu: lle mae pobl wedi cael eu lladd neu eu hanafu; mewn safleoedd sy'n peri pryder i'r gymuned ac mae arolwg yn cadarnhau bod problem goryrru wirioneddol ac fel rhan o weithrediadau arbennig, megis gwaith ffordd ac ymgyrchoedd addysgol.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf ar Heol Lansdowne, cofnodwyd dau wrthdrawiad gyda mân anafiadau ac un gwrthdrawiad difrifol. Yn seiliedig ar yr wybodaeth hon, ni fyddai'r safle hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer camera cyflymder sefydlog fel y nodir yn y ddogfen uchod. Yn ogystal, nid yw'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth bod gwrthdrawiadau wedi'u hachosi gan gynllun presennol y ffordd.

Gellir cofrestru pryderon ar y wefan GanBwyll *www.ganbwyll.org.uk o dan Cysylltwch â ni > Pryder Cymunedol ac yna bydd GanBwyll yn ymchwilio'r mater os yw'n briodol.

Materion sy'n ymwneud â Thwmpathau Cyflymder.

"Mae traffig o bob maint yn brecio ac yn gyrru dros y twmpathau cyflymder hyn ac yna'n cyflymu at yr un nesaf sawl can metr ymlaen."

"Wnaiff y rampiau hyn ddim atal y rhai sy'n gallu goryrru rhag gwneud hynny, ac ni fydd yn atal swm y traffig. Mewn gwirionedd, mae'n debyg y bydd yn gwaethygu hynny."

"Twmpath cyflymder i gyrraedd mesurau arafu gwell croesfannau fel na fyddai'n bosibl i gerbydau gyrraedd cyflymder uchel."

"Ni fydd rampiau a byrddau arafu yn cael yr un effaith â chamerâu."

"Rwyf hefyd wedi sylwi ar duedd gan y cerbydau mwy ar y strydoedd (e.e. cludwyr pobl, SUVs bach a 4x4s) nad yw'n ymddangos bod twmpathau/byrddau arafu yn effeithio'n fawr arnynt oherwydd eu dyluniad. Rwy'n pryderu na fydd y cynnig yn cael cymaint o effaith arnyn nhw."

Mae wedi'i brofi bod mesurau arafu traffig yn ffordd effeithiol o leihau anafiadau ar y ffordd. Nid ar chwarae bach y penderfynwyd gosod rampiau a deëllir eu bod yn achosi anghyfleuster i yrwyr diogel a chyfrifol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Yn anffodus canfuwyd mai'r rhain, yn aml, yw'r unig fesurau effeithiol y gellir eu defnyddio i sicrhau bod y ffyrdd yn ddiogel, yn benodol i ddefnyddwyr agored i niwed megis cerddwyr a beicwyr hen ac ifanc. Mae hyn oherwydd mai rampiau yn aml yw'r unig fesur ar hyn o bryd sy'n gwella – mewn modd

effeithiol a sylweddol – ymddygiad gyrru'r lleiafrif o yrwyr anniogel, anghyfrifol a di-hid. Bydd y traffig yn symud yn arafach a fydd yn creu amgylchedd priffordd diogelach i bob defnyddiwr y ffordd.

Bydd dyluniad y byrddau arafu yn cynnwys graddiannau ramp o 1/14, gyda hyd wastad o 6m ac uchder ramp o 75mm. Dylai hyn greu ramp sy'n effeithiol o ran lleihau cyflymder cerbydau ac, os gyrrir drosto ar gyflymder priodol, ni ddylai achosi anghysur i deithwyr mewn cerbydau.

Materion sy'n ymwneud â'r cyfyngiad ar Norfolk Street.

"Does gen i ddim cysylltiadau yn Ysgol Lansdowne felly dydw i ddim yn ymwybodol o'r holl broblemau yno, ond gallaf weld nad yw cyfyngiadau Stryd Norfolk wedi datrys y problemau'n llwyr, dim ond eu gwthio rownd y gornel."

"Mae'r cyfyngiadau ar Stryd Norfolk yn gwneud hynny'n broblemus, hyd yn oed os oes lle yno."

Yn sgil cyflwyno'r Cynllun Strydoedd Ysgol, rydym yn asesu a monitro'r cynllun. Bydd hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd wrth gyfathrebu â'r Ysgol a chaiff ymweliadau safle eu cynnal yn ystod yr adegau gwaharddedig i asesu effaith y cynllun. Os caiff problemau diogelwch ar y ffyrdd eu nodi yn ystod proses fonitro'r cynllun hwn, caiff y materion hyn eu cyfeirio at y Tîm Gorchmynion Rheoli Traffig i ymchwilio iddynt er mwyn penderfynu a oes angen cyfyngiadau ychwanegol neu ddiwygiedig.

Cefnogaeth dros y cynllun

Cawsom lawer o gefnogaeth dros weithredu'r cynllun. Isod ceir ambell ddyfyniad gan y preswylwyr.

"Rwy'n cefnogi'r cynnig i leihau cyflymder cerbydau ond hoffwn weld y cynllun yn mynd ymhellach i wneud y ffordd yn fwy diogel i feicwyr."

"Rwy'n ysgrifennu i gefnogi eich cynigion i arafu traffig ar gyfer Heol Lansdowne yn Nhreganna. Ni all hyn ond bod yn fesur cadarnhaol i helpu i leihau risgiau a achosir gan yrwyr nad ydynt yn gwybod am beryglon cyflymder gormodol sy'n ymddangos yn broblem ehangach drwy'r ardal."

"Hoffwn gyflwyno fy nghefnogaeth i unrhyw fesurau arafu traffig yn Heol Lansdowne, ardal y bydd fy mhlant yn aml yn ei defnyddio wrth deithio i'r ysgol ac i dai ffrindiau."

"Mae'n wych gweld y cyngor yn ymgynghori ar newidiadau i ddelio â phroblemau ar Heol Lansdowne a fydd, fel un o'r prif wythiennau trafnidiaeth, yn elwa o fesurau arafu traffig,"

"Rwy'n croesawu'r twmpathau cyflymder ar hyd y ffordd achos bod y traffig yn mynd ar hyd Heol Lansdowne yn llawer rhy gyflym ac rwy'n synnu nad yw wedi digwydd yn gynt gydag ysgol gyferbyn."

"Helo - rwy'n cefnogi gwaith Cyngor Caerdydd i wella llwybrau diogel yn Nhreganna ar Heol Lansdowne. Gobeithio bod hyn yn ddechrau llawer mwy o waith i ddod."

"Mae'n wych gweld bod yr ardal hon yn cael ei hystyried oherwydd y traffig mawr.

"Rwyf wedi teimlo ers peth amser bod angen gwneud rhywbeth am y broblem gyda thraffig ar Heol Lansdowne; mae ceir yn mynd ar ei hyd yn gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder bron bob tro. Rwy'n credu bod y cynigion hyn yn syniad gwych os gallant leihau goryrru yn yr ardal, ac rwy'n cefnogi'r cynlluniau hyn yn llwyr."